# CYFARFOD BLYNYDDOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD RHWNG AELODAU PWYLLGOR PENSIYNAU CYNGOR GWYNEDD A CHYNRYCHIOLWYR Y CYFLOGWYR A'R UNDEBAU DYDD MERCHER, 10 HYDREF 2018

**Yn bresennol:**

**Aelodau'r Pwyllgor Pensiynau**

Y Cynghorwyr Stephen Churchman, John Brynmor Hughes, Aled Wyn Jones, Peredur Jenkins, Robin Williams (Cynrychiolydd Cyngor Môn),

**Aelodau'r Bwrdd Pensiwn**

Tony Deakin (Cartrefi Conwy), Cynghorydd Aled Lloyd Evans (Cyngor Gwynedd), Sharon Warnes a H Eifion Jones

**Cynrychiolwyr Cyflogwyr**

Alison Evans (Grŵp Llandrillo Menai), Lynn Patterson ac Ieuan Williams (Cwmni Cynnal), Tony Walter (Cyngor Conwy), Geraint Owen (Menter Môn), Eurig Williams (Cyngor Gwynedd), Eleri Edwards (Cartrefi Cymunedol Gwynedd), Helen Williams (Heddlu Gogledd Cymru) a Jo Warrell (Parc Cenedlaethol Eryri)

**Staff sy'n Gwasanaethu'r Gronfa (Cyngor Gwynedd);**

Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Swyddog Cyfathrebu (Pensiynau), Ffion Madog Evans (Rheolwr Cyllid - Adnoddau a Chorfforaethol), Richard Owen (Dirprwy Reolwr Pensiynau), Gwenan Medi Williams (Uwch Swyddog Pensiynau), Marina Parry Owen (Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau), Delyth Jones-Thomas (Cyfrifydd Pensiynau a Rheolaeth Trysorlys), Gruffydd Thomas (Swyddog Systemau Uned Bensiynau ) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

## 1. CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Peredur Jenkins yn gadeirydd am y cyfarfod.**

## 2. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan, Y Cynghorydd Seimon Glyn (Cyngor Gwynedd), Cynghorydd John P Roberts (Cyngor Gwynedd), Cynghorydd Peter Read (Cyngor Gwynedd), Cynghorydd David Cowans (Cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistrefol Conwy), Huw Trainor (Heddlu Gogledd Cymru), Osian Richards (Cyngor Gwynedd), Arnold Milburn (Cyngor Tref Llangefni), Mandy Evans (Cyngor Tref Abergele), Linda Jones (Cwmni Fran Wen), Rhys Parry (Cartrefi Cymunedol Gwynedd), David O'Neill (CVSC), Wendy Jones (CVSC), Martin Morris (Cyngor Gwynedd), Chalister Bash-Taqi (Caterlink), Joanne Barlow (Caterlink), Joanne Barlow (Kingdom), Gwyn Jones (Ysgol Eirias), Lynn Bennoch (CAIS), Morfudd Davies (Cyngor Sir Ynys Môn), Gary Jaques-Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Donna Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Carys Edwards (Cyngor Sir Ynys Mon), Sue Hill (ABM Catering), Tina Earley (Cyngor Tref Bae Colwyn),

Nikki Lawrence (Gyrfa Cymru), Caren Bryon (Gyrfa Cymru), Jo Cavill (Gyrfa Cymru), Adele Gatt (Gyrfa Cymru), Kathryn Coughlin (Grŵp Llandrillo Menai), Phillip Davies (Cyngor Conwy), Sally Williams (Cyngor Conwy), Gareth Owen (Cyngor Conwy), Huw Ifor Jones (Cyngor Conwy), Isobel Mitchell (Cyngor Conwy), Francesca Pridding ( Cyngor Tref Tywyn),Delyth Williams (Cartrefi Cymunedol Gwynedd), Katherine Owen (Cyngor Tref Caernarfon), Cyngor Tref Biwmares a Medrwn Môn.

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol

## 4. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL CRONFA BENSIWN 2017-2018

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid Adroddiad Blynyddol y Cynllun Pensiwn am 2017/18

Er bod 2017/18 wedi bod yn flwyddyn heriol adroddwyd bod y Gronfa wedi derbyn dychweliadau cadarnhaol ac wedi adeiladu ar y lefel ariannu. Bu cynnydd o 10.8% mewn aelodau'n cyfrannu i'r cynllun a chynnydd o 4.3% yn y niferoedd pensiynwyr sydd yn y cynllun. Diolchwyd i'r cyflogwyr oedd wedi cyflwyno data yn gywir a chyflym ac eglurwyd bod hyn yn hanfodol er mwyn i'r Uned Bensiynau ddiweddaru cofnodion cyflogwyr a chynhyrchu buddion blynyddol yn amserol ar gyfer bodloni'r Rheoleiddiwr Pensiynau. Nodwyd y bydd cyflwyno data cywir ac amserol yn hanfodol ar gyfer 2019 fel dyddiad prisiad teirblynyddol.

Ategodd y Pennaeth Cyllid ei fod wedi holi Actiwari'r Gronfa ynglŷn â beth fyddai canlyniad prisiad teirblynyddol 2019 yng nghyd-destun penderfyniad Actiwari'r Llywodraeth i godi cyfradd cyfrannu'r Cynllun Pensiwn Athrawon o 16% i 24% ym mis Medi 2019. Eglurwyd bod y naid sylweddol yma yn digwydd oherwydd bod lefelau cyfraddau'r athrawon yn ceisio dal i fyny o lefelau hanesyddol oedd yn rhy isel ac addasiad i raddfa disgownt SCAPE oedd ond yn cael ei adolygu bob pum mlynedd. Mynegwyd nad oedd y ffactorau hyn yn mynd i effeithio'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Cyfeiriwyd at ymrwymiadau'r cynllun Pensiwn, gan adrodd bod y Gronfa wedi bod yn gweithredu'n ddarbodus, a'r ffactor fydd yn dylanwadu fwyaf ar y prisiad fydd dychweliadau buddsoddi a gwerth yr asedau. Er i'r farchnad stoc fod yn heriol yn 2017/18 adroddwyd bod y Gronfa yn parhau i adeiladu ar berfformiad buddsoddi rhagorol 2016/17 ac yn 2017/18 cafwyd dychweliadau buddsoddi o £56m (3%) gan asedau'r Gronfa. Roedd hyn yn adlewyrchu marchnadoedd gwannach o'i gymharu â 22% a ddychwelwyd y flwyddyn flaenorol, ond roedd y cynnydd pellach a welwyd yn ystod chwarter cyntaf 2018/19 yn ddigon i weld gwerth y Gronfa yn tyfu i fwy na dau biliwn o bunnoedd.

Eglurwyd bod elfen o dwf sylweddol 2016/17 yn adlewyrchu effaith cwymp y bunt ar werth buddsoddiadau byd eang. Dosbarthwyd graff a gafodd ei baratoi gan Ymgynghorydd Buddsoddi'r Gronfa oedd yn gwahanu'r elfennau twf mewn gwerth ecwiti rhwng gwerth arian lleol a gwerth mewn punnoedd. Ategwyd bod y twf mewn gwerth asedau yn galonogol gyda Chronfa Gwynedd wedi ariannu 91% ym mhrisiad teriblynyddol 2016 (oedd o fewn y 10 uchaf yng Nghymru a Lloegr) wrth ddefnyddio rhagdybiaethau actiwaraidd darbodus. Ar gyfer prisiad 2019, dylai cryfder y Gronfa ganiatáu cymryd agwedd hyblyg tuag at gyfraddau cyfrannu cyflogwyr effeithiol o 2020.

Nodwyd y byddai trefn buddsoddi i'r dyfodol yn newid a chyfeiriwyd at egwyddorion buddsoddi cyfrifol a datblygu Partneriaeth Pensiwn Cymru. Gyda strategaeth fuddsoddi'r Gronfa yn canolbwyntio ar asedau twf, disgwylir dychweliadau mwy deniadol na'r dychweliadau gellid ennill o fuddsoddiadau risg isel. Yn adeiladu ar hynny adroddwyd bod Pwyllgor Pensiynau Gwynedd a Bwrdd Pensiwn y Gronfa, ar y cyd, wedi datblygu egwyddorion buddsoddi cyfrifol sydd yn ystyried ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu.

Ategodd Cadeirydd y Bwrdd Pensiwn bod angen gwybodaeth dryloyw yng nghyd-destun arian sydd yn cael ei fuddsoddi yn erbyn dychweliadau gorau i'r Gronfa. Cyfeiriodd at yr egwyddorion roedd y Pwyllgor a'r Bwrdd wedi eu paratoi a diolchwyd i'r swyddogion ac i Hymans am drefnu'r gweithdy a chydlynu'r drafodaeth. Ategodd bod y flwyddyn wedi bod yn un brysur, ond bod sylfaeni cryf wedi eu gosod.

Adroddwyd bod gan y Pwyllgor Pensiynau ddyletswydd ymddiriedol orfodol i sicrhau bod ystyriaethau ariannol yn cario mwy o bwysau nac ystyriaethau anariannol, ond yn cydnabod hefyd bod ganddynt ddyletswydd i fod yn fuddsoddwyr cyfrifol i ymgysylltu gyda chwmnïau a newid ymddygiad corfforaethol i ddylanwadu ar allbynnau. Ategwyd bod y Gronfa yn agored i risgiau megis newid yn yr hinsawdd, a'r disgwyliad i drawsnewid i economi carbon isel. Y bwriad yw gwella deilliannau ariannol wrth reoli pa mor agored i risgiau o'r fath y mae'r Gronfa.

Adroddodd Cadeirydd y cyfarfod bod gwaith yn parhau i bŵlio buddsoddiadau gyda saith cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol arall yng Nghymru, gyda'r Bartneriaeth wedi ei sefydlu yn ffurfiol ym mis Mawrth 2017. Ategwyd bod Link Asset Services wedi ei benodi fel gweithredwr llwyfan buddsoddi mewn partneriaeth gyda Russell Investments fel rheolwr buddsoddi ac ymgynghorydd pŵl. Er y pŵlio, bydd yr 8 gronfa yn cael parhau i weithredu eu strategaethau buddsoddi unigol. Yn Awst 2018, awdurdodwyd ACS Partneriaeth Cymru gan y Financial Conduct Authority i gynnig dwy is-gronfa ecwiti byd eang i ddisodli mandadau ar wahân y cronfeydd unigol gyda rheolwyr buddsoddi. Adroddwyd y byddai Gwynedd yn trosglwyddo asedau i'r is-gronfeydd.

Amlygodd Cadeirydd y cyfarfod bod y newidiadau i reoli cronfa bensiwn yn newid sylweddol gyda sawl un yn pryderu o rôl y Pwyllgor o fewn y drefn newydd. Yn dilyn cyflwyniadau gan y 10 Rheolwyr Asedau, amlygwyd bod mwy o gyfleoedd ar gael drwy gydweithio. Cyfeiriwyd at y Rheolwyr Asedau newydd gan amlygu ychydig ar eu harbenigedd amrywiol. Nodwyd y byddai'r dewis eang mewn arbenigedd o fudd i Wynedd. Bwriedir trosglwyddo £600m o asedau ecwiti byd eang yn hafal rhwng dwy is-gronfa y Bartneriaeth. Bydd disgwyl gwireddu arbedion pellach o ffioedd drwy pŵlio, ynghyd ag elwa ar fanteision nad oedd yn bosib fel cronfa unigol, gan ddal i gadw perchnogaeth a chyfrifoldeb am fuddsoddiadau'r Gronfa.

Etholwyd y Cynghorydd Stephen Churchman yn Gadeirydd cyntaf cydbwyllgor y Bartneriaeth. Mynegodd fod y cyfnod wedi bod yn un cyffrous a bod cynnydd sylweddol wedi ei wneud yng ngwaith y Bartneriaeth. Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith ac i'w gyd-aelodau ar y Pwyllgor a'r Bwrdd Pensiwn am eu cefnogaeth.

Diolchwyd i bawb am eu cefnogaeth yn ystod 2017/18.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag eraill fydd yn defnyddio'r rheolwyr asedau

a ddewiswyd gan Russell Investments, nodwyd bydd pob cronfa (gan gynnwys Gwynedd) o'r wyth gronfa yng Nghymru yn defnyddio naill neu'r llall o'r ddwy is-gronfa. Ategwyd mai Gwynedd a Chastell Nedd yn unig fydd yn buddsoddi yn y ddwy is-gronfa, gyda Russell Investments yn gweithredu trosolwg rheolaethol dros yr ail is-gronfa. Nodwyd bod y saith cwmni yn yr ail is-gronfa yn newydd i bob un o'r 8 cronfa Cymreig. Eglurwyd y bu cyfyngiadau yn y gorffennol o ran gallu cronfeydd C.P.Ll.L. i gaffael rheolwyr asedau tramor, ond cyfleoedd yn codi gyda hyn.

**PENDERFYNWYD DERBYN ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GRONFA BENSIWN AM 2017/18**

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 y.h. a daeth i ben am 3.00 y.h.

**CADEIRYDD**